Naaman

Capten y milwyr yn cael ei wella

Dewrder / cyfeillgarwch / dyfalbarhad

Mae yna rai pobl mewn rhannau o'r byd heddiw yn dioddef o afiechyd ar y croen. Enw'r afiechyd hwn yw'r gwahanglwyf. Mae'r afiechyd hwn yn gwneud difrod mawr i'r croen. Mae'r stori hon yn sôn am gapten byddin Syria oedd yn dioddef o'r afiechyd.

Roedd Naaman yn gapten ar fyddin Syria. Roedd byddin Syria yn brwydro yn erbyn byddin Israel. Un diwrnod daeth Naaman â llaweroedd iawn o garcharorion o Israel. Roedd y brenin yn falch iawn.

"Da iawn ti, Naaman," meddai, "rwyt ti'n filwr ardderchog. Edrych, fe gei di fynd ag un ferch adref gyda thi i'th wraig. Fe roddaf i ti yn rhodd am dy waith da fel milwr."

Er bod Naaman yn filwr da, roedd ganddo rywbeth i'w guddio. Doedd neb yn gwybod dim am ei gyfrinach. Doedd y brenin yn gwybod dim. Doedd y milwyr yn gwybod dim. Dim ond gwraig Naaman oedd yn gwybod am ei gyfrinach. Roedd ganddo afiechyd ar ei groen. Roedd yn gwaethygu o ddydd i ddydd.

Er ei fod yn ceisio ei guddio, roedd yn dechrau dangos ar ei freichiau a'i wyneb. Roedd ei wraig yn poeni.

"Beth ddaw o Naaman druan?" meddai. "Pan fydd y bobl a'r brenin yn dod i ddeall fyddan nhw ddim eisiau Naaman yn gapten ar y fyddin." Dechreuodd grio. Doedd yna ddim yn y byd allai wella afiechyd Naaman.

"Peidiwch â chrio," meddai'r ferch fach wrth ei meistres, "fe wn i am un all wella'ch gŵr. Eliseus ydi hwnnw. Mae'n byw yn fy ngwlad i – gwlad Israel."

Rhedodd ei meistres i ddweud wrth ei gŵr. Aeth yntau i weld y brenin ar ei union. Anfonodd y brenin ef i weld brenin Israel. Roedd brenin Syria wedi ysgrifennu llythyr at frenin Israel.

"Sut y medra i wella'r gŵr hwn?" meddai brenin Israel. "Nid Duw ydw i."

Daeth neges oddi wrth Eliseus y proffwyd, "Anfon Naaman ataf i."

Felly, aeth Naaman a'i filwyr i dŷ'r proffwyd Eliseus. Pan gyrhaeddodd y tŷ, wnaeth neb ei wahodd i ddod i mewn. Daeth un o'r caethweision allan a dweud,

"Mae Eliseus yn dweud fod rhaid i ti ymolchi yn afon Iorddonen

saith o weithiau ac yna mi fyddi'n well."

Gwylltiodd Naaman, "Pwy mae Eliseus yn feddwl ydi o? Dydw i ddim yn mynd i ymolchi yn yr afon fudr yna."

Perswadiodd y milwyr ef i fynd i ymolchi i afon Iorddonen. Yn y diwedd, cerddodd tua'r afon. Roedd y dŵr yn frown. Yn araf cerddodd Naaman i'r afon. Dechreuodd ei filwyr gyfri. Ar ôl cerdded ychydig, dechreuodd Naaman droi'n ôl tua'r lan.

"Paid â throi'n ôl," gwaeddodd un o'i filwyr, "dos ymlaen. Mi wnawn ni dy helpu. Mi wnawn ni gyfri."

Dechreuodd y milwyr gyfri gyda'i gilydd. "Tri, pedwar, pump, chwech, saith." Yn araf cerddodd Naaman allan o'r afon. Edrychodd ar ei gorff. Doedd yna ddim marc yn unman. Roedd ei groen yn llyfn. Roedd wedi gwella. Bellach, roedd yn ddyn hapus iawn.

"Mae'n rhaid i ni fynd yn syth i dŷ Eliseus i ddiolch iddo," gwaeddodd Naaman ar lan yr afon. Ar y ffordd i dŷ Eliseus roedden nhw hefyd yn diolch i Dduw.

Meddai Naaman wrth Eliseus ar ôl cyrraedd y tŷ, "Rwy'n gwybod yn awr mai dim ond un Duw sy'n bod a hwnnw ydi Duw Israel." Aeth adref i wlad Syria i ddweud wrth ei wraig ei fod am addoli Duw Israel. Hwn oedd y Duw oedd wedi ei wella.

"Felly daeth Naaman, gyda'i feirch a'i gerbydau, a sefyll o flaen drws tŷ Eliseus..."

11 Brenhinoedd 5:9

O Dduw,
mi ydw i eisiau helpu pawb,
bob amser.
Bydd di yn gymorth i mi.
Amen.

Ydych chi'n credu bod Naaman wedi bod yn anniolchgar ar y dechrau?
Neu oedd yna reswm arall tybed?

Naaman